# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Polisi Defnydd ar gyfer Cyfrifiaduron Mynediad Cyhoeddus

## Cynnwys

1. Pwrpas
2. Cwmpas
3. Gofynion a Chyfrifoldebau
4. Mesur Cydymffurfiaeth
5. Noddwr
6. Sicrhau Triniaeth Gyfartal

## 1. Pwrpas

**1.1** Mae'r Polisi hwn yn diffinio gweithdrefnau, cyfrifoldebau ac ymarferion derbyniol o ran y cyfrifiaduron a ddarperir at ddefnydd aelodau'r cyhoedd.

**1.2** Mae'r cyfrifiaduron cyhoeddus i'w cael ar draws safleoedd y Cyngor Sir ac yn rhoi mynediad i aelodau'r cyhoedd at gyfrifiadur sy'n rhoi mynediad i'r rhyngrwyd

**1.3** Darperir mynediad i'r rhyngrwyd drwy fynediad y Cyngor i'r rhyngrwyd ac mae system hidlo gwefannau sylfaenol ar waith

**1.4** Mae hwn yn wasanaeth am ddim a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i aelodau'r cyhoedd

## 2. Cwmpas

**2.1** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob defnyddiwr gwasanaeth mynediad cyhoeddus a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

## 3. Gofynion a Chyfrifoldebau

**3.1** Mae'n rhaid cael manylion cofrestru'r defnyddiwr cyn cael caniatâd i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae'n rhaid cadw manylion personol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol megis y **Ddeddf Diogelu Data (1998)** a'r **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.**

**3.2** Dylai pob aelod o staff y Cyngor sy'n casglu gwybodaeth bersonol ddilyn **Polisi'r Cyngor ar gyfer Trin Gwybodaeth Bersonol**

**3.3** Mae'n rhaid i bob defnyddiwr y gwasanaeth hwn lofnodi (yn ddigidol neu â llaw) y **Telerau a'r Amodau o ran Mynediad i'r Cyhoedd** a darparu **prawf adnabod dilys** cyn defnyddio'r gwasanaeth hwn

**3.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod neu rwystro mynediad defnyddiwr at y gwasanaeth hwn ar unrhyw adeg

**3.5** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi gwaharddiad awdurdod cyfan ar waith o ran defnyddwyr y gwasanaeth y mae o'r farn eu bod wedi torri'r telerau ac amodau

## 4. Mesur Cydymffurfiaeth

**4.1** Mae cydymffurfio â'r Polisi hwn yn orfodol ar gyfer unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth. Os na fydd staff yn cydymffurfio ag ef gellir cymryd camau disgyblu yn eu herbyn. Os bydd defnyddiwr yn mynd yn groes i'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, gellid rhoi gwybod i'r Heddlu am hyn.

## 5. Noddwr

**5.1** Eiddo’r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yw'r polisi hwn.

## 6. Sicrhau triniaeth gyfartal

**6.1** Mae'n rhaid rhoi'r polisi hwn ar waith yn gyson i bawb, heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws rhianta, statws priodasol neu statws o ran partneriaeth sifil.

Ysgrifennwyd y polisi gan: John M Williams CISMP